

Swydd Fewnol/Allanol: Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu X2
Peidiwch â chynnwys CV. Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd at
jobs@cymoedd.ac.uk

Cwmni	Coleg Y Cymoedd	Dyddiad Hysbysebu	10/01/2022
Swydd	Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu X2	Oriau/Hyd	32 awr yr wythnos, yn ystod tmhorau'r coleg yn unig cyfnod penodol tan 30 mehefin 2022
Cyflog	Graddfa 4 £22,245 - £23,901 pro rata	Lleoliad	Campws Nantgarw (Ond bydd angen gweithio ar ein campysau yn aberdâr, rhondda ac ystrad mynach)
Dyddiad/Amser Cau	24/01/2022 12:00pm canol dydd (Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl 12:00pm canol dydd eu hystyried)	Dyddiad Y Cyfweiliad	I'w gadarnhau 2022

Os ydych yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau helpu pobl eraill ac os oes gennych brofiad o gynnig cymorth i ddysgwyr sy'n Fyddar, sydd â nam ar eu clyw neu sydd ag anhawster cyfathrebu, yna mae gennych yr hyn sydd ei angen i fod yn Weithiwr Cymorth Cyfathrebu yng Ngholeg y Cymoedd. Dyma gyfle gwych i weithio i gwmni sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n gwerthfawrogi'ch cyfraniad, yn cefnogi'ch datblygiad personol ac yn eich herio i wneud eich gorau glas i'n dysgwyr.

Y SWYDD

Mae gennym gyfle cyffrous i Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (x2) ymuno â'n tîm Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY/ALP) proffesiynol a brwdfrydig. Lleolir y swydd yn ein Campws Nantgarw a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â ni mewn swydd 32 awr yr wythnos, yn ystod tymhorau'r Coleg yn unig, am gyfnod penodol hyd at 30 Mehefin 2022. Bydd yn derbyn nifer o fuddion a chyflog cystadleuol. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol Dystysgrif Lefel 3 mewn Cymorth Cyfathrebu ar gyfer Dysgwyr Byddar neu Dystysgrif Lefel 3 mewn Iaith Arwyddion Prydain. Byddwch yn meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu rhagorol ac yn meddu ar agwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn gweithio'n effeithiol gyda dysgwyr.

Y CWMNI

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i Goleg y Cymoedd - mae canlyniadau dysgwyr wedi gwella'n sylweddol, gydag enghreifftiau o ymarfer sy'n arwain y sector mewn rhai ysgolion, a rhaglenni academaidd a galwedigaethol yn ennill canlyniadau sy'n cyd-fynd â'r cymaryddion cenedlaethol. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd gan gynnwys dau gampws newydd yn Aberdâr a Nantgarw a nifer o ganolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i'r diwydiannau, rhai a gefnogir gan ystod o gyflogwyr proffil uchel.

Ni fyddai llwyddiant y coleg yn bosibl heb ymroddiad ac ymrwymiad ein gweithwyr ac mae'r tîm Cymorth Dysgu Ychwanegol yn gweithio'n galed i sicrhau bod Coleg y Cymoedd yn amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol a chroesawgar.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Gweithio fel rhan o'r Tîm CDY gyda dysgwyr i hwyluso cyfathrebu a mynediad at addysgu a dysgu gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac ystod o ddulliau a strategaethau cyfathrebu, fel sy'n briodol.
- Gweithio'n hyblyg i ddarparu cefnogaeth yn y dosbarth, i grwpiau bach neu i unigolion.
- Cynllunio, cyflwyno a, lle bo angen, asesu'r cymorth sy'n briodol i brofiadau, sgiliau a gwybodaeth alwedigaethol y dysgwyr.
- Hwyluso cyfathrebu rhwng dysgwr, staff a chyfoedion a datblygu a hyrwyddo integreiddiad cymdeithasol dysgwyr.
- Cysylltu â Thiworiaid Cwrs er mwyn adnabod anghenion cymorth unigol dysgwyr a chynghori staff addysgu a staff eraill ar strategaethau cyfathrebu priodol

GOFYNION ALLWEDDOL

- Meddu ar Dystysgrif Lefel 3 mewn Cymorth Cyfathrebu ar gyfer Dysgwyr Byddar neu Dystysgrif Lefel 3 mewn BSL
- Dangos cymhwysedd ar Lefel 3 Safonau Iaith Galwedigaethol y DU (CILT, 2010).
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc a/neu oedolion â lefelau amrywiol o fyddardod.
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc a/neu oedolion ag anawsterau cyfathrebu.

YR HYN YR YDYM YN EI GYNNIG

Mae'r coleg yn cynnig ystod o fuddion lles a chydbwysedd bywyd a gwaith i gydnabod a gwobrwyo'r cyfraniad hanfodol y mae ein staff yn ei wneud i'n llwyddiant a'n twf. I enwi ond ychydig, bydd gennych fynediad at:

- Cynlluniau pensiwn cyflog terfynol
- Parcio am ddim ar ein holl gampysau
- Aelodaeth hamdden ostyngedig
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Gwyliau blynyddol hael

- Polisiau cyfeillgar i deuluoedd
- Mynediad at Wi-Fi a Microsoft Office 365 am ddim
- Gwobrau cydnabod staff
- Cyfleoedd i ddatblygu

PAM Y DYLECH YMGEISIO

- Cyflog cystadleuol
- Canolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i ddiwydiant
- Coleg a thîm arobryn
- Pecyn buddion cystadleuol iawn
- Cyfleoedd rhagorol ar gyfer twf a datblygiad

AMSERLEN RECRIWTIO

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: **Dydd Llun 24 Ionawr 2022 am 12:00PM canol dydd** (rhoddir gwybod i ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn 4 Chwefror 2021). **Os na fyddwch yn clywed gan y coleg erbyn dydd Dydd Gwener 4 Chwefror 2021, dylech dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn.**

Dyddiad y bydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal : I'w gadarnhau

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer ac yr hoffech i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, rhowch wybod inni ar: jobs@cymoedd.ac.uk

Sylwer: Bydd y coleg fel arfer yn casglu geiradaon cyn gwahodd ymgeiswyr i gyfweiliad.

SUT I WNEUD CAIS

Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd jobs@cymoedd.ac.uk

Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r **Disgrifiad Swydd** a'r **Fanyleb Person** i egluro sut mae'ch sgiliau, eich profiad a'ch priodoleddau yn eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd. Mae angen hanes cyflogaeth llawn, gan gynnwys manylion unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. **Peidiwch â chynnwys CV.**

Os ydych yn dymuno postio'r cais yn drwy e-bost, anfonwch y cais at:

Yr Adran Adnoddau Dynol

Coleg y Cymoedd

Campws y Rhondda

Llwynypia

Tonypandy

RhCT

CF40 2TQ .

Am drafodaeth anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â: **Dorian Adkins, Pennaeth Darpariaeth Dysgu**
Ychwanegol ar dorian.adkins@cymoedd.ac.uk



Rydym yn barod i ystyried trefniant rhannu swydd ar gyfer y rôl hon.

I gael rhagor o wybodaeth am y coleg, edrychwch ar ein [Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#), [Instagram](#) a [LinkedIn](#).

HAWL I WAITH YN Y DU

Mae adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae ei statws mewnfudo yn atal y gweithiwr rhag cael gwaith. Os cewch eich gwahodd i ddod i gyfweiliad gofynnir ichi gynhyrchu tystiolaeth ddogfennol wreiddiol a chyfredol o'ch hawl i weithio yn y DU.

DIOGELU DATA

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n ymwneud â delio â'ch cais yn y broses ddethol. Trwy lofnodi a chyflwyno'ch ffurflen gais rydych yn rhoi caniatâd i brosesu'ch data.

EUOGFARNAU TROSEDDOL

Mae sefydliadau addysg yn y DU wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu ac sydd heb eu disbyddu ar eu ffurflen gais ac wrth lenwi ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Ceir gwiriad rhestr 99 hefyd ar gyfer unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr neu'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a rhaid i'r coleg ei dderbyn cyn y gall y gyflogaeth ddechrau.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Rydym yn cydnabod buddion gweithlu amrywiol - rydym yn ystyried ein hunain yn gyflogwr o ddewis ac wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu yn y gweithle.

GOFYNION ARBENNIG

Os oes angen addasiadau rhesymol arnoch i'ch galluogi naill ai wrth wneud cais am y swydd hon neu i gymryd rhan yn y broses gyfweld, yna cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk

